

**Cynnal Adolygiadau
Ffeithiol ar gyfer
Preswylwyr a Gafodd
COVID-19 yn y Sector
Cartrefi Gofal**

Canllaw arfer da

v1.1

Cynnwys

1. Pwrpas	3
2. Cefndir	3
Dull y Gwasanaeth Iechyd Gwladol	4
3. Cwmpas	4
4. Proses adolygu	5
4.1 Egwyddorion cyffredinol	5
4.2 Adnabod achosion sydd angen eu hadolygu	5
5. Methodoleg adolygu	6
5.1 Adolygiadau crynswth a chlwstwr	6
5.2 Trosglwyddo o leoliadau'r GIG	6
5.3 Pennu cwmpas adolygu	6
5.4 Awgrymiadau cwmpasu	7
6. Ymgysylltu â phreswylwyr a theuluoedd	9
7. Cysylltiadau'r Bwrdd Iechyd a'r Ymddiriedolaeth	10
Atodiadau	11
Offeryn adolygu	11

1. Diben

Nod y canllaw arfer da hwn yw cynorthwyo darparwyr cartrefi gofal yng Nghymru os ydynt yn dymuno cynnal adolygiad ffeithiol o achosion lle cafodd preswylwyr COVID-19 tra'n byw mewn cartrefi gofal. Nid yw'n ofyniad gorfodol i ddarparwyr cartrefi gofal ddefnyddio'r canllaw arfer da hwn. Fodd bynnag, y bwriad yw ei fod yn offeryn defnyddiol i ddarparwyr cartrefi gofal sy'n dymuno myfyrio ar eu hymarfer a'u profiad yn ystod y pandemig ac unrhyw ddysgu sy'n deillio ohono. Gall fod yn ddefnyddiol hefyd os byddwch yn ymateb i bryderon a godwyd gan breswylwyr neu eu teuluoedd.

Mae GIG Cymru yn arwain Rhaglen Covid-19 Nosocomiaidd Genedlaethol ar wahân o ymchwiliadau i achosion o haint a gafwyd mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae'r canllaw arfer da hwn ar gyfer y sector cartrefi gofal yn cyd-fynd â'r dull dysgu a fabwysiadwyd gan y GIG.

2. Cefndir

Yn ystod pandemig COVID-19, yn anffodus cafodd llawer o breswylwyr a staff cartrefi gofal COVID-19. Er bod yr amgylchiadau ynghylch sut cawsant COVID-19 yn amrywio, rydym yn gwybod, er gwaethaf yr ymdrechion gorau posibl, mewn amgylchiadau anodd iawn, fod rhai preswylwyr wedi cael COVID-19 tra roeddent yn byw mewn catref gofal.

Roedd COVID-19 yn haint newydd ac nid oedd llawer o wybodaeth amdano ar gael ar wahân i'r ffaith ei fod yn fygythiad difrifol i iechyd y boblogaeth yn fyd-eang. Er bod mesurau atal a rheoli heintiau yn arfer rheolaidd, profodd COVID-19 yn anodd ei reoli, yn enwedig ar adegau pan oedd nifer yr achosion cymunedol yn uchel a'r gallu i brofi yn gyfyngedig ar y cychwyn. Gan nad oedd yr hyn a oedd yn achosi trosglwyddiad COVID-19 yn eglur ar y cychwyn, roedd hyn yn rhwystro gallu gwasanaethau ymhellach i leihau lledaeniad y feirws mewn cartrefi gofal, yn enwedig ymhlith cymunedau bregus.

Er bod heintiau'n risg gydnabyddedig mewn cartrefi gofal, mae nodi camau gweithredu a all wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn uniongyrchol, yn parhau'n elfen bwysig o ddysgu a gwella diogelwch i ddefnyddwyr gwasanaethau a staff fel ei gilydd. Mae'n bwysig i breswylwyr a/neu eu teuluoedd hefyd, a all fod â phryderon ynghylch yr amgylchiadau o ran sut y cawsant hwy neu aelod o'u teulu COVID-19 tra roeddent yn byw mewn catref gofal, er mwyn gallu deall yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'u hachos penodol a'r dysgu sydd wedi digwydd.

Bwriad y canllaw arfer da hwn yw cefnogi darparwyr cartrefi gofal os ydynt yn dymuno cynnal adolygiadau ffeithiol i achosion COVID-19 a ddigwyddodd yn eu gwasanaethau. Mae'n seiliedig ar ddull dysgu sy'n ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfle i ddysgu a gwella — nid fel modd o fwrw bai neu daflu'r bai. Bydd nodi meysydd o arfer da ynghyd â meysydd i'w gwella, yn helpu i wella gwasanaethau a chanlyniadau.

Dull y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Ym mis Ebrill 2022, sefydlodd y GIG yng Nghymru raglen genedlaethol i gefnogi sefydliadau'r GIG i ymchwilio i bob achos o COVID-19 a gafodd y cleifion a oedd dan eu gofal. Datblygwyd dogfen fframwaith genedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu ar gyfer pob sefydliad ac mae'n rhaid i'r GIG gydymffurfio â hi. Er nad yw'r un rheoliadau'n berthnasol yn y sector cartrefi gofal, mae'r canllaw arfer da hwn, wrth gynnal adolygiadau ffeithiol, yn seiliedig ar y technegau a ddefnyddir gan y GIG ac wedi'i lywio gan yr hyn a ddysgwyd o'r rhaglen hyd yma.

3. Cwmpas

Bwriad y canllaw arfer da hwn yw cynorthwyo unigolion cyfrifol a rheolwyr cofrestredig gwasanaethau cartrefi gofal yng Nghymru sy'n dymuno cynnal adolygiad ffeithiol o unrhyw achosion o COVID-19 yn eu cartrefi gofal. Gellir cychwyn adolygiadau ffeithiol mewn ymateb i geisiadau gan breswylwyr neu aelodau o'r teulu neu gallant fod yn rhan o brosesau ansawdd a gwella'r gwasanaeth ei hun.



4. Proses adolygu

4.1 Egwyddorion cyffredinol

Er mwyn lleihau rhagfarn wrth edrych yn ôl, dylai adolygiadau sicrhau bod gofal yn cael ei feincnodi yn erbyn y canllawiau a'r polisiâu penodol a oedd ar waith ar adeg trosglwyddo'r haint. Rhaid ystyried yr holl ffeithiau perthnasol ar y pryd gan gynnwys nifer yr achosion o haint, lefelau staffio a'r holl anawsterau gweithredol eraill a brofwyd yn ystod y pandemig.

Gall dyfnder yr adolygiad amrywio yn ôl y materion sy'n cael eu hystyried a'r canlyniad i'r unigolyn/unigolion yr effeithiwyd arnynt. Efallai na fydd yn briodol cynnal adolygiadau manwl ar gyfer pob achos ac felly efallai y byddwch yn ei ystyried yn fwy cymesur adolygu clwstwr o achosion, yn hytrach nag achosion unigol sy'n gysylltiedig â chlwstwr o achosion.

4.2 Adnabod achosion sydd angen eu hadolygu

Nodi achosion positif COVID-19:*

- amheuaeth neu gadarnhad o ddal COVID-19
- clwstwr o achosion neu Gyfnod o Ddigwyddedd Cynyddol
- data gwyliadwriaeth drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru
- prosesau pryderon, gan gynnwys cwynion gan breswylwyr, eu teuluoedd a chynrychiolwyr.

* Mae data ar gael o'r system TARIAN drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gall swyddogion Iechyd yr amgylchedd gynorthwyo hefyd.

5. Methodoleg adolygu

Datblygwyd offeryn adolygu syml (**Atodiad A**) i gefnogi sefydliadau i gynnal adolygiadau cymesur. Lle cafwyd achosion, gellir defnyddio'r offeryn i gynnal adolygiadau crynswth/clwstwr.

5.1 Adolygiadau crynswth a chlwstwr

Mewn perthynas ag achosion, pan fo nifer o drigolion wedi'u heintio drwy'r un ffynhonnell, dylid ystyried cynnal un adolygiad i benderfynu ar yr hyn a achosodd yr haint, ond dylid sicrhau bod unrhyw fethodolegau ar gyfer ymchwiliadau crynswth neu glwstwr yn canfod y canlyniad i'r preswlydd unigol hefyd.

5.2 Wedi'u trosglwyddo o leoliadau gofal iechyd eraill

Mewn achosion lle amheuir bod preswlydd wedi dal COVID-19, a/neu wedi cael prawf positif o'r clefyd o fewn 14 diwrnod o gael ei drosglwyddo o gyfleuster GIG, efallai y bydd dyletswydd ar y sefydliad GIG lleol i gynnal ymchwiliad ffurfiol yn unol â gweithdrefnau'r GIG. Yn yr amgylchiadau hyn, cysylltwch yn uniongyrchol â thîm ymchwilio Nosocomiaidd COVID-19 y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth lleol i'w gwneud yn ymwybodol. Lle nodir hynny, bydd sefydliadau lleol y GIG yn cynnal yr ymchwiliadau perthnasol heb fod angen adolygu ymhellach. Fodd bynnag, efallai y byddwch am gynorthwyo ymchwiliad y GIG drwy ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol, yn yr achos hwn, trafodwch hynny wrth gysylltu. Gellir gweld rhestr lawn o holl gysylltiadau lleol tîm ymchwilio COVID-19 y GIG ar ddiwedd y canllaw hwn.

5.3 Pennu cwmpas adolygu

Yn y rhan fwyaf o achosion, cwmpas adolygiadau ffeithiol fydd sefydlu cyn belled ag y bo modd sut a phryd y gwnaeth preswlydd ddal COVID-19. Fodd bynnag, bydd achosion lle mae angen i'r cwmpas ymestyn y tu hwnt i'r diben hwn er mwyn mynd i'r afael â chwestiynau neu bryderon ychwanegol gan breswylwyr, eu teuluoedd a chynrychiolwyr, er enghraifft, niwed pwysu a gafwyd, cwmpadau, meddyginiaeth ac ati.

Bwriad y canllaw hwn yw cefnogi adolygwyr i gynnal adolygiad cymesur a chefnogi adolygwyr i ymestyn y cwmpas pan fo angen gwneud hynny oherwydd ffactorau eraill fel ymholiadau gan breswylwyr neu rywun ar eu rhan. Dylid rheoli cwynion yn unol â'ch polisi a'ch gweithdrefn ar gyfer cwynion.

Gwybodaeth ofynnol:

- Nodi a yw'r preswlydd yn bodloni'r gofynion ar gyfer ei gynnwys yn yr adolygiad (er enghraifft, wedi dal COVID-19 tra roedd mewn man preswyl)
- Sefydlu ffeithiau allweddol perthnasol a allai fod yn berthnasol i'r preswlydd yn dal COVID-19
- Nodi dyddiadau allweddol ac adolygu'r cyfnod gofal sy'n berthnasol i'r haint
- Triogli gwybodaeth o bob ffynhonnell arall (er enghraifft, adolygiadau o achosion sydd ar gael gan y tîm diogelu iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru)
- Nodi drwy adolygiadau unrhyw ddysgu a gwella.

5.4 Awgrymiadau cwmpasu

Pa mor bell yn ôl sydd angen i mi edrych?

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn ddigonol edrych yn ôl ar y cyfnod o 14 diwrnod cyn y canlyniad positif cyntaf am COVID-19. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau lle mae angen i chi fynd yn ôl ymhellach.

Faint o fanylion sydd eu hangen unwaith y bydd amseru ac achos y trosglwyddiad wedi'i nodi?

Unwaith y bydd y cwestiynau allweddol (sut a phryd) wedi'u hateb (cystal â phosibl), y dasg allweddol yw darganfod os yw'r hyn a ddysgwyd, os o gwbl, yn gallu helpu i lywio ymarfer lleol er mwyn lleihau'r risg o heintiau.

Roedd y preswlydd yr wyf yn ei adolygu yn rhan o glwstwr wnaeth ddal yr haint, a oes angen i mi nodi'r hyn a achosodd yr haint?

Roedd y rhan fwyaf o'r preswylwyr a gafodd COVID-19 yn rhan o glwstwr o achosion, ac mae'n debyg y bydd yr hyn a achosodd yr haint yr un fath i bob preswlydd yn y clwstwr hwnnw. Mae'n debygol y byddai timau atal a rheoli heintiau wedi cynnal adolygiadau o achosion ar y pryd ac wedi dod i gasgliad ynghylch yr hyn a achosodd y clwstwr o achosion. Gellir defnyddio hyn at ddibenion yr adolygiad ffeithiol.

Beth yw union ystyr ffeithiau allweddol perthnasol?

Pwrpas yr adolygiad ffeithiol yw nodi'r hyn a achosodd preswlydd i ddal COVID-19, yng nghyd-destun y pandemig a phwysau gweithredu ar y pryd. Felly, dim ond y ffeithiau allweddol perthnasol sy'n gysylltiedig â dal yr haint COVID-19 a'r dyddiadau allweddol sy'n berthnasol ar gyfer y cyfnod gofal hwnnw. Er enghraifft, mae'n annhebygol y bydd adolygu elfennau eraill o'r cynllun gofal ynghylch atal cwmpadau ac anghenion deietegol yn fuddiol yn hyn o beth.

Beth os na allaf ddod o hyd i ddogfen neu ganllawiau penodol yr wyf yn teimlo sy'n bwysig i'r achos?

Efallai y bydd Awdurdodau Lleol yn gallu cynorthwyo gyda rhywfaint o'r dogfennau. Mae timau atal a rheoli heintiau'n ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth hefyd. Cofiwch hefyd, efallai y cyfeiriwyd at rai o'r canllawiau mewn adroddiadau o achosion a'u bod wedi'u cyfeirnodu o bosibl, er enghraifft, gweithdrefnau a chanllawiau gweithredu lleol a oedd yn berthnasol ar y pryd.

A oes angen i mi ddefnyddio pecyn cymorth neu fethodoleg benodol i gynnal ymchwiliadau?

Nid yw defnyddio methodoleg adolygu benodol yn orfodol — gallwch ddewis defnyddio pa bynnag fethodoleg sy'n addas i'ch anghenion. Fodd bynnag, nod yr offeryn adolygu a ddarperir fel rhan o'r canllaw arfer da yw eich helpu i gynnal adolygiad cymesur yn unol â chwmpas yr adolygiad.

Beth sy'n cael ei ystyried fel achos?

Achos o haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yw pan fo dau neu ragor o achosion cysylltiedig â'r un cyfrwng heintus (er enghraifft, COVID-19 (SARS-CoV-2)) yn gysylltiedig â'r un lleoliad dros gyfnod penodol.

A oes ymchwiliadau eraill wedi'u cynnal?

Cyn dechrau eich adolygiad ffeithiol, dylid sicrhau bob amser eich bod wedi ystyried unrhyw brosesau eraill a allai fod wedi ymchwilio i'r ffaith bod preswlydd wedi dal COVID-19. Bydd unrhyw achosion o breswylwyr a gafodd brawf positif am COVID-19 o fewn 14 diwrnod o gael eu trosglwyddo o leoliad y GIG, yn cael eu hymchwilio fel rhan o Raglen COVID-19 Nosocomiaidd Genedlaethol. Os ydych yn ansicr ac yn dymuno gwirio a oes ymchwiliad wedi'i gynnal, defnyddiwch fanylion cyswllt pwrpasol y Bwrdd Iechyd/ Ymddiriedolaeth leol ar gyfer y rhaglen isod fel y gallwch ofyn hynny.

6. Ymgysylltu â phreswylwyr a theuluoedd

Bydd y broses o ymgysylltu â phreswylwyr yn digwydd yn anffurfiol ac yn ffurfiol.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd) yn gosod gofynion ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol cartrefi gofal a gwasanaethau rheoleiddiedig eraill. Efallai y bydd y canllaw arfer da hwn yn eich helpu i fodloni rhai o'r gofynion a nodir mewn rheoliadau.

Mae rheoliad 64 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gael polisi a gweithdrefn ar gyfer cwynion gyda threfniadau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion.

Mae rheoliad 76 yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas ar waith ar gyfer cael barn preswylwyr a'u cynrychiolwyr ynghylch ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir a sut gellir ei wella.

Mae Rheoliad 80 yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas ar waith i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys adolygu unrhyw gamau a gymerir mewn perthynas â chwynion. Mae'n cynnwys paratoi adroddiad i'r darparwr gwasanaeth hefyd yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth.



7. Manylion Cyswilt y Bwrdd Iechyd a'r Ymddiriedolaeth

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Ffoniwch: 0300 373 0652

E-bostiwch: abb.covidinvestigationteam@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ffoniwch: 03000 846992

E-bostiwch: BCU.HCAICovid19@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Ffoniwch: 01443 443084

E-bostiwch: CTM.NosocomialCV19@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Ffoniwch: 02921 836407

E-bostiwch: Cav.Covidsupport@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ffoniwch: 0300 303 8322

E-bostiwch: covidenquiries.hdd@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ffoniwch: 01639 684440

E-bostiwch: SBU.NosocomialReviewTeam@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ffoniwch: 01874 442918

E-bostiwch: PTHBNosocomialReviewTeam@wales.nhs.uk

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Ffoniwch: 02920 196161

E-bostiwch: HandlingConcernsVelindre@wales.nhs.uk

Atodiadau

Offeryn adolygu

Adran 1 – Manylion y person sy'n llenwi'r ffurflen hon

Manylion	Ateb
Enw	
Teitl swydd	
Enw'r sefydliad	

Adran 2 – Gwybodaeth am y preswlydd

Cwestiwn gwybodaeth am y preswlydd	Ateb
Enw/Enwau preswlydd/preswylwyr	
Dyddiad derbyn preswlydd i'r cartref gofal	
Man preswlio ar adeg yr haint	
Dyddiad dechrau'r symptomau (os yw'n hysbys)	
Dyddiad canlyniad positif COVID-19 (os yw'n berthnasol)	

Adran 3 – Cysylltiad preswlydd â COVID-19

Cwestiwn am gysylltiad	Ie/na	Manylion
A yw'r preswlydd wedi bod mewn cysylltiad â pherson positif arall?		
A yw'r preswlydd wedi cael ei drosglwyddo o leoliad gofal iechyd (er enghraifft, ysbyty) yn ystod y 14 diwrnod diwethaf? D.S. Os ydy – cyfeiriwch at adran 5.2 o'r canllaw arfer da		
A fu clwstwr o achosion yn y man preswlydd cyn i'r preswlydd gael prawf positif am COVID-19 neu ar yr adeg honno?		

Adran 4 – Yr amgylchedd, profi a chyfarpar diogelu personol (PPE)

Cwestiwn am yr amgylchedd, profi a PPE	Ateb
Pa fesurau atal heintiau oedd ar waith yn amgylchedd y cartref ar yr adeg berthnasol?	
Pa fesurau ynysu oedd ar waith pe bai preswlydd yn cael prawf positif neu'n arddangos symptomau?	
Yn dilyn canlyniad COVID-19 positif, a oedd y preswlydd wedi'i ynysu'n briodol, yn unol â chanllawiau/cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru?	
A oedd yna anawsterau ynysu preswlyddyr? (er enghraifft, oherwydd cyflwr meddygol preswlydd neu ddiffyg cyfleusterau ynysu?)	
A oedd cyfarpar diogelu personol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio, yn unol â'r canllawiau?	
A oedd profion COVID-19 rheolaidd yn cael eu gwneud, os felly, pa mor aml?	

Adran 5 – Ymweld

Cwestiwn am ymweld	Ateb
Beth oedd y trefniadau ymweld ar yr adeg y dechreuodd y preswilydd arddangos symptomau a/neu ar y cafodd brawf positif?	

Adran 6 – Meysydd o arfer da a/neu welliannau a nodwyd

Cwestiwn am arfer da a/neu welliannau	Ateb
Disgrifiwch unrhyw elfennau o arfer da a nodwyd	
Disgrifiwch elfennau rydych yn credu y gellir eu gwella	

Adran 7 – Camau Gweithredu

Rhestrwch hyd at 5 o gamau gweithredu y gallwch eu rhoi ar waith yn seiliedig ar y manylion yn adran 6

Disgrifiad	Manylion
Cam Gweithredu 1	
Cam Gweithredu 2	
Cam Gweithredu 3	
Cam Gweithredu 4	
Cam Gweithredu 5	